WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office / Swyddfa Archwilio Cymru

24 Cathedral Road / Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 20 320500
Fax / Ffacs: 029 20 320600
Email / Ebost: wales@wao.gov.uk
www.wao.gov.uk

Mr C Everett
Prif Weithredwr
Cyngor Sir y Fflint
Neuadd y Sir
Yr Wyddgrug
CH7 6NB

| | |
|---|---|
| **Dyddiad** | 25 Hydref 2012 |
| **Ein cyfeirnod** | 467A2012 |
| **Eich cyfeirnod** | |
| **Rhif ffôn** | 02920 320500 |
| **E-bost** | walesauditoffice@wao.gov.uk |
| **Tudalennau** | **1** o **11** |

Annwyl Colin

## Asesiad Gwella

Mae'n ofynnol i mi, o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), gyflwyno adroddiad ar fy ngwaith archwilio ac asesu ynghylch a yw Cyngor Sir y Fflint (y Cyngor) wedi cyflawni ei ddyletswyddau ac wedi bodloni gofynion y Mesur.

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi:

- fy marn ynghylch a yw'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau statudol mewn perthynas â chynllunio gwelliant;
- fy marn ar gydymffurfiaeth y Cyngor â'r gofynion i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus, yn seiliedig ar waith a wnaed hyd yma gan Swyddfa Archwilio Cymru a rheoleiddwyr perthnasol, gan gynnwys:
  – cynnydd y Cyngor mewn perthynas â meysydd i'w gwella ac argymhellion a nodwyd yn fy asesiadau blaenorol;
  – unrhyw faterion perthnasol a all fod wedi dod i'r amlwg ers fy adroddiad diwethaf, gan gynnwys sylwadau ar sut mae'r Cyngor yn mynd i'r afael â heriau ariannol;
  – crynodeb byr o unrhyw adroddiadau gan reoleiddwyr perthnasol a gyhoeddwyd ers fy adroddiad diwethaf.
- fy nghynigion pellach ar gyfer gwella a/neu argymhellion;
- diweddariadau i gynllun gwaith ac amserlen Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer cyflawni fy ngwaith ar yr Asesiad Gwella.

Byddaf yn diweddaru fy safbwyntiau yn ystod y flwyddyn ac yn anfon llythyr arall erbyn diwedd mis Tachwedd 2012.

**Datblygiadau ers fy adroddiad diwethaf**

Nodais ym mis Ionawr 2012 fod y Cyngor wedi gwneud cynnydd parhaus tuag at gael pleidlais ar drosglwyddo'r stoc tai a bod hwn yn gam pwysig o ran gwella ansawdd ei stoc tai. Ym mis Mawrth, cynhaliodd y Cyngor bleidlais i'w denantiaid ar yr opsiwn o drosglwyddo ei stoc i gymdeithas dai. Roedd y nifer a bleidleisiodd yn uchel, sef 71 y cant o denantiaid. O'r rhain, pleidleisiodd 88 y cant yn erbyn y cynnig i drosglwyddo'r stoc o'r Cyngor. Mae'r Cyngor a Llywodraeth Cymru wrthi'n trafod sut i gyrraedd Safonau Ansawdd Tai Cymru.

Cyfeiriodd fy adroddiad ym mis Ionawr hefyd at gynnydd y Cyngor o ran aildrefnu ei ysgolion uwchradd er mwyn gwneud defnydd gwell o adnoddau. Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus anffurfiol, mae'r Cabinet wedi cytuno ar ei ddewis opsiynau ar gyfer moderneiddio ei ddarpariaeth ysgolion yn ardaloedd Treffynnon, Cei Conna/Shotton/Queensferry a Bwcle/Mynydd Isa/yr Wyddgrug o'r sir. Bydd y Cyngor yn ymgynghori'n ffurfiol yn awr ar y dewis opsiynau. Gwnaed cynnydd hefyd yn y sector ysgolion cynradd; mae'r Cyngor wedi agor ysgol newydd yng Nghei Conna ac wedi uno pedwar pâr o ysgolion babanod ac ysgolion iau.

## Nid wyf yn gallu nodi a yw'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau i gynllunio gwelliant o dan y Mesur gan nad yw'r Cyngor wedi cyhoeddi ei Gynllun Gwella ar gyfer eleni eto

Yn sgil etholiadau Llywodraeth Leol mis Mai 2012, cafwyd newidiadau sylweddol yn arweinyddiaeth wleidyddol y Cyngor. Enillodd ymgeiswyr y Blaid Lafur 30 allan o 70 o wardiau'r Cyngor ac, yn ei Gyfarfod Blynyddol ar 15 Mai, dewisodd y Cyngor y Cynghorydd Aaron Shotton o'r Grŵp Llafur yn Arweinydd. Mae'r Grŵp Llafur, yr wrthblaid gynt, bellach yn dal saith allan o'r wyth sedd ar Gabinet y Cyngor.

Yn sgil y newid gwleidyddol hwn, mae'r Cyngor yn ddealladwy wedi dewis cyhoeddi ei Gynllun Gwella ar gyfer 2012-13 ym mis Hydref 2012. Er ei fod ymhell ar ôl dechrau'r flwyddyn ariannol, bydd yr amseru'n galluogi'r Cyngor i ystyried sut y gall ei Amcanion Gwella adlewyrchu ymrwymiadau maniffesto'r arweinyddiaeth wleidyddol newydd yn y ffordd orau. Yn y cyfamser, mae gwasanaethau'n parhau i fynd i'r afael â'r amcanion eang eu cwmpas a'r camau gweithredu cysylltiedig a bennwyd yn 2011-12, y maent oll yn berthnasol i'r Cyngor o hyd. Byddaf yn adrodd ar fy archwiliad o Gynllun Gwella'r Cyngor ar gyfer 2012-13 erbyn diwedd mis Tachwedd.

## Ar sail gwaith a wnaed hyd yma gan Swyddfa Archwilio Cymru a rheoleiddwyr perthnasol, ac yn gyfyngedig iddo, credaf fod y Cyngor yn debygol o gydymffurfio â'r gofyniad i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn ystod y flwyddyn ariannol hon

Deuthum i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd rhesymol o ran gweithredu ar nifer o'r argymhellion yn fy Adroddiad Gwella Blynyddol diwethaf ond mae rhai prosiectau allweddol yn cymryd mwy o amser na'r disgwyl;
- mae gwaith ar y cynllun ariannol tymor canolig yn parhau ond nid yw'r Cyngor wedi llwyddo i gwblhau'r cynllun erbyn diwedd mis Medi 2012, yn ôl y bwriad;
- mae trefniadau'r Cyngor ar gyfer datblygu, defnyddio a chefnogi technoleg yn debygol o gefnogi gwelliant parhaus;
- mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) wedi cyhoeddi asesiad cadarnhaol o wasanethau'r Cyngor ar gyfer plant a theuluoedd, gan adlewyrchu arweinyddiaeth gref a chanlyniadau gwell.

### Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd rhesymol o ran gweithredu ar nifer o'r argymhellion yn fy Adroddiad Gwella Blynyddol diwethaf ond mae rhai prosiectau allweddol yn cymryd mwy o amser na'r disgwyl

Rwyf wedi nodi o'r blaen nifer o argymhellion/cynigion ar gyfer gwella a hefyd wedi nodi rhai meysydd lle y byddem yn gwneud rhagor o waith. Rwyf wedi cynnwys rhestr lawn o'm hargymhellion a'm cynigion blaenorol ar gyfer gwella yn Atodiad 1, ynghyd â'm hasesiad o gynnydd hyd yma a'm cynlluniau ar gyfer cyflwyno adroddiadau yn y dyfodol. Rhoddaf grynodeb o'r cynnydd ar rai o'r materion hyn isod:

- Mae'r Cabinet (a'r Weithrediaeth yn flaenorol) wedi derbyn diweddariadau gan swyddogion ar gynnydd y Cyngor o ran cyflawni un o'i Amcanion Gwella ar gyfer 2011-12, sef 'bod yn gyflogwr modern, gofalgar a hyblyg gyda chyflogau a thelerau ac amodau cyflogaeth teg a chyfartal o dan Gytundeb Statws Sengl'. Mae'r Cyngor wedi asesu bod ei gynnydd yn erbyn yr Amcan Gwella hwn yn foddhaol. Fodd bynnag, mae'r dyddiad tebygol ar gyfer gweithredu Statws Sengl yn llawn yn parhau i gael ei adolygu, ar ôl cael ei ohirio unwaith eto. Yn hyn o beth, ni lwyddodd y Cyngor i gyflawni ei amserlen fwriadedig, fel yr argymhellwyd yn fy Adroddiad Gwella Blynyddol diwethaf.

- Mae'r gwaith o ddod i gytundeb cyfreithiol a fforddiadwy gyda phartneriaid Undebau Llafur y Cyngor yn gymhleth ac mae'r Cyngor yn ddealladwy wedi gofyn am gymorth allanol ar gyfer y gwaith hwn. Mae'r Cyngor yn deall ac yn derbyn bod risgiau ariannol yn gysylltiedig â rhoi'r Statws Sengl ar waith a sefydliad cheisiadau dilynol am gyflog cyfartal posibl a'r rhai sy'n bodoli esieoes. Mae wedi neilltuo cronfeydd ariannol wrth gefn i liniaru'r risgiau hyn. Fodd bynnag, daeth ein harchwiliad o ddatganiadau ariannol y Cyngor i'r casgliad bod y Cyngor wedi bod yn rhy barod i ddibynnu ar amcangyfrifon a luniwyd yn allanol ar gyfer ceisiadau am gyflog cyfartal heb eu hadolygu na'u herio'n ddigonol. O ganlyniad, diwygiodd y Cyngor y ffigur a oedd wedi'i gynnwys yn y cyfrifon i adlewyrchu'r atebolrwydd ar gyfer dibenion cyfrifo yn well. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen gwaith pellach i amcangyfrif yr atebolrwydd go iawn. Bydd maint y atebolrwydd yn deillio o'r cytundeb Statws Sengl a thrwy drafodaethau gyda'r Undebau Llafur
- Argymhellais ym mis Ionawr 2012 y dylai'r Cyngor gwblhau ei waith ar feintioli manteision ariannol ei raglen o arbedion effeithlonrwydd a newid sefydliadol erbyn canol 2012-13. Mae rhan allweddol o'r rhaglen hon, a elwir yn 'Dyfodol Sir y Fflint', yn elfen pwysig o waith cynllunio ariannol tymor canolig y Cyngor. Mae'n cefnogi gallu'r Cyngor i barhau i gynnal gwasanaethau a buddsoddi ynddynt pan fo llai o arian allanol. Mewn papur i'r Cabinet ym mis Mehefin 2012, amcangyfrifodd swyddogion fod angen i'r Cyngor nodi arbedion effeithlonrwydd o rhwng £7 miliwn ac £8 miliwn er mwyn mantoli ei gyllideb ar gyfer 2013-14. Mae rhaglen Dyfodol Sir y Fflint yn uchelgeisiol ac yn cynnwys pum ffrwd gwaith pwysig. Mae uwch swyddogion yn cydnabod bod cynnydd yn amrywio ar draws y ffrydiau gwaith, a'i fod yn arafach na'r bwriad mewn nifer o feysydd. Mae'r Cyngor wedi sefydlu Bwrdd Rhaglen i gynnal a, lle y bo angen, gynyddu momentwm a gwella'r broses gyffredinol o lywodraethu'r rhaglen. Er bod y Cyngor wedi cyflawni bron 90 y cant o'r arbedion bwriadedig ar gyfer 2011-12, o brosiectau Dyfodol Sir y Fflint ac arbedion effeithlonrwydd eraill, mae angen gwneud llawer mwy o waith i feintioli'r arbedion y gellid eu cyflanwni yn y dyfodol er mwyn llywio gwaith cynllunio ariannol y Cyngor yn well.

Byddwn yn rhoi rhagor o wybodaeth am ein canfyddiadau yn rhai o'r meysydd hyn ar wahân mewn diweddariadau interim lle y bo'n briodol.

## Mae gwaith ar y cynllun ariannol tymor canolig yn parhau ond nid yw'r Cyngor wedi llwyddo i gwblhau'r cynllun erbyn diwedd mis Medi 2012, yn ôl y bwriad

Dywedodd swyddogion wrth y Cabinet ym mis Mehefin 2012 eu bod yn bwriadu cwblhau cynllun ariannol tymor canolig y Cyngor a diweddaru'r strategaeth ariannol erbyn diwedd mis Medi. Drwy wneud hynny, amcangyfrifwyd y swm y bydd ei angen i ateb y pwysau tebygol o ran costau ar gyfer y flwyddyn i ddod, ar sail profiad blaenorol. Cyfeiriodd y swyddogion hefyd yn gyffredinol at botensial rhaglen Dyfodol Sir y Fflint i greu arbedion effeithlonrwydd. Adeg ysgrifennu'r llythyr hwn, mae'r broses o lunio'r cynllun ariannol tymor canolig yn parhau ond heb ei gorffen.

Rhoddodd adroddiad mis Mehefin amlinelliad i'r weinyddiaeth wleidyddol newydd o sefyllfa ariannol y Cyngor. Fodd bynnag, yn y dyfodol, bydd angen mwy o fanylion ar y Cabinet er mwyn gwneud penderfyniadau hyddysg a fydd yn y pen draw yn arwain at argymell cyllideb i'r Cyngor ar gyfer 2013-14. Fel y nodir uchod, mae rhaglen Dyfodol Sir y Fflint yn parhau i fod yn amhenodol mewn nifer o feysydd o ran yr arbedion y mae pob elfen yn debygol o'u creu.

Gall cyflwyno 'dull cyflawni manteision' ar gyfer pob prosiect wella gwaith cynllunio ariannol tymor canolig y Cyngor. Ar hyn o bryd, nid yw gwaith cynllunio ariannol y Cyngor yn rhoi digon o ystyriaeth i brosiectau tymor hwy, yn arbennig y rheini lle mae angen ailgyflunio gwasanaethau, ac nad yw eu manteision ariannol yn debygol o gael eu cyflawni am gryn amser. Mae'n bwysig bod y manteision ariannol bwriadedig sy'n deillio o waith o'r fath yn cael eu hamcangyfrif o'r cychwyn cyntaf fel bod y Cyngor mewn sefyllfa well i fantoli ei gyllideb yn y dyfodol. Mae rhai o'r prosiectau hyn, a gaiff eu cynllunio ddwy neu dair blynedd ymlaen llaw, hefyd yn gofyn am wneud penderfyniadau cynnar er mwyn sicrhau y caiff yr arbedion bwriadedig eu cyflawni yn y flwyddyn a gynlluniwyd.

## Mae trefniadau'r Cyngor ar gyfer datblygu, defnyddio a chefnogi technoleg yn debygol o gefnogi gwelliant parhaus

Mae defnyddio technoleg mewn modd effeithiol yn hanfodol i drawsnewid y broses o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus, gwella canlyniadau ar gyfer dinasyddion a chyflawni arbedion effeithlonrwydd. Gall technoleg ddarparu ffyrdd gwahanol o weithio, darparu gwasanaethau ac ymgysylltu â dinasyddion sy'n galluogi cynghorau i gyflawni mwy am lai o arian. Mae'r ffordd y caiff technoleg ei chyflenwi a'i rheoli yn cael effaith uniongyrchol ar effeithlonrwydd, effeithiolrwydd ac ansawdd gwaith a wneir ym mhob rhan o'r Cyngor ac mae'n effeithio ar bron bob un o weithwyr y Cyngor.

Yn 2010, nodwyd bod llawer o awdurdodau lleol yn cael trafferth sicrhau bod technoleg yn cael ei defnyddio'n effeithiol i helpu i drawsnewid gwasanaethau a chyflawni arbedion effeithlonrwydd. O ganlyniad, cynhaliwyd adolygiadau o dechnoleg ym mhob cyngor yn ystod 2011-12.

Yn Sir y Fflint, canfuwyd bod trefniadau'r Cyngor ar gyfer datblygu, defnyddio a chefnogi technoleg yn debygol o gefnogi gwelliant parhaus. Mae'r Cyngor wedi sefydlu seilwaith technoleg cadarn, ac mae'n dechrau defnyddio technoleg yn effeithiol i drawsnewid gwasanaethau a chyflawni arbedion effeithlonrwydd. Yn benodol, canfuwyd:

- bod trefniadau ar gyfer datblygu, defnyddio a chefnogi technoleg yn gadarn gydag enghreifftiau o arfer da ond byddai dull mwy corfforaethol o ariannu technoleg yn arwain at fwy o gyfleoedd gwella;
- bod perfformiad o ran defnyddio technoleg yn gadarn ac yn gwella, ond bod lle i wella ymhellach drwy ddefnyddio gwybodaeth am berfformiad yn well.

Mae ein hadborth i'r Cyngor yn cynnwys rhai awgrymiadau o ran sut y gallai'r Cyngor wella ei ddefnydd o dechnoleg ymhellach.

**Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru wedi cyhoeddi asesiad cadarnhaol o wasanethau'r Cyngor ar gyfer plant a theuluoedd, gan adlewyrchu arweinyddiaeth gref a chanlyniadau gwell**

Ym mis Mehefin 2012, cyhoeddodd AGGCC adroddiad ar ansawdd gwasanaethau'r Cyngor i blant a theuluoedd. Mae asesiad cyffredinol AGGCC o wasanaethau yn gadarnhaol. Canfuwyd y canlynol:

- bod gwybodaeth am rôl Gwasnaethau Plant ar gael yn eang a bod y rheini sy'n cysylltu yn cael ymateb effeithiol, gyda chyngor prydlon a threfniadau cymorth;
- bod ffocws cynyddol ar atal ac ymyrryd yn gynnar sy'n cefnogi'r teulu cyfan, gyda chanlyniadau gwell i blant gan fod angen gofal ar nifer lai ohonynt;
- bod trefniadau partneriaeth yn gweithio'n dda o ran sicrhau y caiff anghenion eu diwallu mewn ffordd gydgysylltiedig;
- bod Pennaeth Gwasnaethau Plant yn darparu arweinyddiaeth strategol a gweithredol gadarn a bod rheolwyr yn gweithio gyda'r gweithlu i sicrhau ymrwymiad i ffyrdd modern o ddarparu gwasnaethau;
- bod systemau da ar waith i sicrhau bod gwaith yn cael ei flaenoriaethu'n briodol;
- bod morâl staff yn dda a bod staff gwaith cymdeithasol a'u rheolwyr yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda.

Er hyn, mae nifer o feysydd lle y mae angen i'r Cyngor wella. Ymhlith y rhain mae:

- sicrhau cysondeb o ran dull, ymarfer a dealltwriaeth ymhlith yr holl weithwyr ac o ran ansawdd goruchwyliaeth broffesiynol;
- sicrhau bod nifer briodol o weithwyr profiadol o fewn y system ddyletswydd;
- parhau i fynd i'r afael â salwch ymhlith staff mewn rhai meysydd;
- gwella amseroldeb cofnodion cynadleddau achos a'r ffordd y cânt eu dosbarthu wedi hynny;
- sicrhau bod yr holl staff yn defnyddio systemau cyfrifiadurol mewn ffordd gymwys a chyson a bod y data yn cael ei gofnodi'n brydlon ac yn gyson ar y system gyfrifiadurol.

## Cynigion pellach ar gyfer gwella ac argymhellion

Nid wyf yn gwneud unrhyw gynigion ar gyfer gwella nac argymhellion newydd yn y llythyr hwn. Er bod y testun uchod yn cyfeirio at nifer o feysydd nad ydynt eto mor gadarn ag y gallent fod, credaf fod y cynigion a'r argymhellion a nodwyd yn fy adroddiadau a'm llythyrau blaenorol, a nodir yn Atodiad 1, yn cwmpasu'r rhain i raddau helaeth. Bydd Tîm yr Asesiad Gwella yn parhau i fonitro ac adrodd ar y cynnydd a wneir gan y Cyngor o ran gweithredu ar y materion hyn.

## Diweddariadau i'r cynllun gwaith a'r amserlen

Bydd Tîm yr Asesiad Gwella yn sicrhau bod y Cyngor yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y trefniadau manwl ar gyfer cyflwyno fy ngwaith asesu.

Mae'r cynllun gwaith a'r amserlen a gaiff eu diweddaru'n rheolaidd yn rhoi rhagor o fanylion am y gwaith sy'n cael ei gyflawni yn ystod asesiad eleni ac, yn benodol, sut y byddwn yn ychwanegu gwerth drwy ganolbwyntio ar feysydd neu wasanaethau a nodwyd ar y cyd.

Mae'r cynllun gwaith a'r amserlen yn ystyried fy ymgynghoriad â'r awdurdodau gwella ar fy nghynigion ar gyfer gwaith archwilio perfformiad 2012-13. Yn benodol, byddaf yn gofyn i Dîm yr Asesiad Gwella ystyried yn ystod y flwyddyn faint y gallwn ddibynnu ar y prosesau hunanasesu (gan gynnwys eich adolygiad o lywodraethu wrth gynhyrchu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol a'ch Adroddiad Perfformiad Blynyddol). Byddaf hefyd yn adolygu hunanasesiad y Cyngor o'i drefniadau yn ystod yr hydref. Byddaf yn gwneud sylwadau ar y gwaith hwn yn fy Adroddiad Gwella Blynyddol.

Rwyf yn ddiolchgar i'r Cyngor am y ffordd y mae wedi helpu i hwyluso ein gwaith a gobeithiaf weld trefniadau hyd yn oed fwy effeithiol ac effeithlon yn datblygu dros amser. Rwyf yn parhau i fod yn ymrwymedig i ddarparu lefelau priodol o sicrwydd cyhoeddus gan eich helpu ar yr un pryd i liniaru'r risgiau anochel i wasanaethau ac atebolrwydd sy'n deillio o leihad mewn adnoddau a newidiadau o ganlyniad i hynny.

Yn gywir



**HUW VAUGHAN THOMAS**
**ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU**

CC: Carl Sargeant, Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau
Huw Lloyd Jones, Rheolwr
Karen Lees, Swyddog Arweiniol Archwilio Perfformiad

# Atodiad 1

| Argymhellion[1] ar gyfer gwella a wnaed yn Adroddiad Gwella Blynyddol 2012 | Cynnydd |
|---|---|
| Dylai'r Cyngor gyflwyno adroddiadau mwy cyflawn a rheolaidd i'r Bwrdd Gweithredol ar hynt y strategaeth Adnoddau Dynol a'r Cytundeb Statws Sengl, a sicrhau bod gallu ac adnoddau ar gael i gyflawni'r canlyniadau a'r amserlenni bwriadedig. | Mae'r Cabinet wedi derbyn diweddariadau gan swyddogion ar gynnydd y Cyngor o ran cyflawni un o'i Amcanion Gwella ar gyfer 2011-12, sef 'bod yn gyflogwr modern, gofalgar a hyblyg gyda chyflogau a thelerau ac amodau cyflogaeth teg a chyfartal o dan Gytundeb Statws Sengl'.Mae'r Cyngor wedi asesu bod ei gynnydd yn erbyn yr Amcan Gwella hwn yn foddhaol. Fodd bynnag, mae'r dyddiad tebygol ar gyfer gweithredu Statws Sengl yn llawn yn parhau i gael ei adolygu, ar ôl cael ei ohirio unwaith eto. Mae'r gwaith o ddod i gytundeb cyfreithiol a fforddiadwy gyda phartneriaid Undebau Llafur y Cyngor yn gymhleth ac mae'r Cyngor yn ddealladwy wedi gofyn am gymorth allanol ar gyfer y gwaith hwn. Mae'r Cyngor yn deall ac yn derbyn bod risgiau ariannol yn gysylltiedig â rhoi'r Statws Sengl ar waith a sefydliad cheisiadau dilynol am gyflog cyfartal posibl a'r rhai sy'n bodoli esieoes. Mae wedi neilltuo cronfeydd ariannol wrth gefn i liniaru'r risgiau hyn. Fodd bynnag, daeth ein harchwiliad o ddatganiadau ariannol y Cyngor i'r casgliad bod y Cyngor wedi bod yn rhy barod i ddibynnu ar amcangyfrifon a luniwyd yn allanol ar gyfer ceisiadau am gyflog cyfartal heb eu hadolygu na'u herio'n ddigonol. O ganlyniad, gwnaeth y Cyngor ddiwygio'r ffigur a oedd wedi'i gynnwys yn y cyfrifon i adlewyrchu'r atebolrwydd ar gyfer dibenion cyfrifo yn well. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen gwaith pellach i amcangyfrif yr atebolrwydd go iawn. Bydd maint y atebolrwydd yn deillio o'r cytundeb Statws Sengl a thrwy drafodaethau gyda'r Undebau Llafur. |

[1] Mae'r ddau argymhelliad hyn yn dilyn cynigion ar gyfer gwella a wnaed ym mis Awst 2010 a mis Awst 2011.

| Argymhellion[2] ar gyfer gwella a wnaed yn Adroddiad Gwella Blynyddol 2012 | Cynnydd |
|---|---|
| Mae angen i'r Cyngor gwblhau ei waith ar feintioli manteision ariannol ei raglen o arbedion effeithlonrwydd a newid sefydliadol erbyn canol 2012-13, er mwyn pennu'r bwlch ariannu sy'n weddill (diffyg neu warged) ac yna bennu cynlluniau clir i nodi arbedion pellach a/neu ailgyfeirio adnoddau at flaenoriaethau. | Mae rhaglen 'Dyfodol Sir y Fflint' yn elfen bwysig o waith cynllunio ariannol tymor canolig y Cyngor. Mae'n cefnogi gallu'r Cyngor i barhau i gynnal gwasanaethau a buddsoddi ynddynt pan fo llai o arian allanol. Mewn papur i'r Cabinet ym mis Mehefin 2012, amcangyfrifodd swyddogion fod angen i'r Cyngor nodi arbedion effeithlonrwydd o rhwng £7 miliwn ac £8 miliwn er mwyn mantoli ei gyllideb ar gyfer 2013-14. Mae rhaglen Dyfodol Sir y Fflint yn uchelgeisiol ac yn cynnwys pum ffrwd gwaith pwysig. Mae uwch swyddogion yn cydnabod bod cynnydd yn amrywio ar draws y ffrydiau gwaith, a'i fod yn arafach na'r bwriad mewn nifer o feysydd. Mae'r Cyngor wedi sefydlu Bwrdd Rhaglen i gynnal a, lle y bo angen, gynyddu momentwm a gwella'r broses gyffredinol o lywodraethu'r rhaglen. Cyflawnwyd bron 90 y cant o'r arbedion bwriadedig ar gyfer 2011-12, o brosiectau Dyfodol Sir y Fflint ac arbedion effeithlonrwydd eraill. Fodd bynnag, mae angen gwneud llawer mwy o waith i feintioli'r arbedion y gellid eu cyflawni yn y dyfodol er mwyn llywio gwaith cynllunio ariannol y Cyngor yn well. |

| Cynigion ar gyfer gwella a wnaed yn Adroddiad Gwella Blynyddol 2012 | Cynnydd |
|---|---|
| Cwblhau'r gwaith sy'n mynd rhagddo i bennu mesurau llwyddiant clir ar gyfer pob amcan gwella a sicrhau y cyflwynir adroddiadau clir a rheolaidd.[3] | Byddwn yn cyflwyno adroddiad ar gynnydd ym mis Tachwedd 2012. |
| Datblygu a chytuno ar gynllun busnes manwl ar gyfer gwella mynediad i gwsmeriaid gan ddangos sut y cyflawnir mesurau llwyddiant a sut y cynigir gwerth am arian. | Byddwn yn cyflwyno adroddiad ar gynnydd yn ein Hadroddiad Gwella Blynyddol ar gyfer 2013. |

[2] Mae'r ddau argymhelliad hyn yn dilyn cynigion ar gyfer gwella a wnaed ym mis Awst 2010 a mis Awst 2011.

[3] Cafodd y cynnig hwn ar gyfer gwella ei gyflwyno i'r Cyngor am y tro cyntaf ym mis Ionawr 2011.

| **Cynigion ar gyfer gwella a wnaed yn Adroddiad Gwella Blynyddol 2012** | **Cynnydd** |
|---|---|
| Sicrhau bod ei Adroddiad Perfformiad Blynyddol yn cael ei gyhoeddi erbyn 31 Hydref yn unol â gofynion statudol a'i fod yn adlewyrchu canllawiau Llywodraeth Cymru'n well. | Byddwn yn cyflwyno adroddiad ar gynnydd ym mis Tachwedd 2012. |
| Gwella trefniadau sicrhau ansawdd er mwyn sicrhau bod y data a ddefnyddir i gefnogi gwaith rheoli a monitro perfformiad yn gywir ac yn gadarn. | Byddwn yn cyflwyno adroddiad ar gynnydd ym mis Tachwedd 2012. |
| **Cynigion ar gyfer gwella a wnaed yn Llythyr Diweddaru Asesiad Corfforaethol 2011** | **Cynnydd** |
| Erbyn diwedd 2011, dylai'r Cyngor gwblhau'r gwaith o ddatblygu ei gynllun ariannol tymor canolig er mwyn ei alluogi i wneud penderfyniadau hyddysg ar sut i fynd i'r afael â phwysau ariannol a sut i ddyrannu adnoddau er mwyn cyflawni amcanion gwella. | Dywedodd swyddogion wrth y Cabinet ym mis Mehefin 2012 eu bod yn bwriadu cwblhau cynllun ariannol tymor canolig y Cyngor a diweddaru'r strategaeth ariannol erbyn diwedd mis Medi. Drwy wneud hynny, amcangyfrifwyd y cyfanswm sy'n ofynnol i fodloni'r pwysau tebygol o ran costau ar gyfer y flwyddyn i ddod, ar sail profiad blaenorol. Cyfeiriodd y swyddogion hefyd yn gyffredinol at botensial rhaglen Dyfodol Sir y Fflint i greu arbedion effeithlonrwydd.<br>Rhoddodd yr adroddiad hwn amlinelliad i'r weinyddiaeth wleidyddol newydd o sefyllfa ariannol y Cyngor. Fodd bynnag, yn y dyfodol, bydd angen mwy o fanylion ar y Cabinet er mwyn gwneud penderfyniadau hyddysg a fydd yn y pen draw yn arwain at argymell cyllideb i'r Cyngor ar gyfer 2013-14. Fel y nodir uchod, mae rhaglen Dyfodol Sir y Fflint yn parhau i fod yn amhenodol mewn nifer o feysydd o ran yr arbedion y mae pob elfen yn debygol o'u creu.<br>Gall cyflwyno 'dull cyflawni manteision' ar gyfer pob prosiect wella gwaith cynllunio ariannol tymor canolig y Cyngor. Ar hyn o bryd, nid yw gwaith cynllunio ariannol y Cyngor yn rhoi digon o ystyriaeth i brosiectau tymor hwy, yn arbennig y rheini lle mae angen ailgyflunio gwasanaethau, ac nad yw eu manteision ariannol yn debygol o gael eu cyflawni am gryn amser. Mae'n bwysig bod y manteision ariannol bwriadedig sy'n deillio o waith o'r fath yn cael eu hamcangyfrif o'r cychwyn cyntaf fel bod y Cyngor mewn sefyllfa well i fantoli ei gyllideb yn y dyfodol. |

| Cynigion ar gyfer gwella a wnaed yn Llythyr Diweddaru Asesiad Corfforaethol 2011 | Cynnydd |
| --- | --- |
| Erbyn diwedd mis Hydref 2011, dylai'r Cyngor fod wedi cwblhau adolygiad o'r cynnydd cyffredinol o ran Strategaeth Pobl 2009-12, blaenoriaethu'r camau gweithredu sy'n weddill a'r adnoddau sydd eu hangen i'w cyflawni, a chyflwyno adroddiad ar hyn i aelodau etholedig. | Byddwn yn cyflwyno adroddiad ar gynnydd yn ystod 2013. |
| Gwella'r dull corfforaethol o ymgysylltu â chymunedau a defnyddwyr gwasanaethau yn cynnwys trefniadau i wella cyfraniad aelodau etholedig. | Byddwn yn cyflwyno adroddiad ar gynnydd yn ein Hadroddiad Gwella Blynyddol ar gyfer 2013. |